



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Adroddiad ar Gynllun Lwfansau Tirlenwi (CLT) Cymru 2018/19

Canlyniadau terfynol

Hydref 2019



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

Ystadegau swyddogol

Ystyrir bod y wybodaeth a geir yn yr adroddiad hwn yn Ystadegau Swyddogol, ac fe'i cynhyrchwyd a'i chyhoeddi yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan Awdurdod Ystadegau'r DU. Am ragor o wybodaeth am Ystadegau Swyddogol ac Awdurdod Ystadegau'r DU, ewch i www.statisticsauthority.gov.uk
Am faterion ystadegol sydd a wnelo â'r cyhoeddiad hwn, cysylltwch ag John Fry:
john.fry@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu y pedwaredd flwyddyn ar ddeg lawn Cynllun Lwfansau Tirlenwi (CLT) Cymru, o 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019.¹ Mae'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn derfynol. Pwrpas y cynllun yw sicrhau nad yw gwastraff trefol pydradwy yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod cyfyngiadau ar faint o wastraff trefol pydradwy gaiff awdurdodau lleol yng Nghymru ei dirlenwi.

Cyfyngiadau data

Nodwyd mater yn ymwneud ag ansawdd data gyda'r fformiwla ar gyfer amcangyfrif y gyfran o wastraff pydradwy mewn safleoedd tirlenwi a gaiff eu dirlenwi. Mae Atodia d 1 yn rhoi gwybodaeth gryno bwysig y mae angen ei hystyried ochr â'r canlyniadau blynyddol.

Penawdau cydymffurfiaeth

Roedd awdurdodau lleol Cymru wedi tirlenwi 98,651² o dunelli o wastraff trefol pydradwy yn 2018/19, o gymharu â lwfans o 350,000 o dunelli ar gyfer Cymru gyfan. Roedd hyn 72% yn llai (251,349 o dunelli) na'r lwfans. Llwyddodd y 22 awdurdod lleol i gynhyrchu o fewn y lwfans unigol a bennwyd iddynt.

Mae Cymru wedi lleihau faint o wastraff trefol pydradwy a dirlenwyd gan 88% (752,838 o dunelli³) ers blwyddyn lawn gyntaf y cynllun yn 2005/06. Mae lleihau faint o wastraff trefol pydradwy sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan atal nwy methan rhag cael ei gynhyrchu a'i ryddhau i'r aer o safleoedd tirlenwi. Mae hyn yn bwysig am fod methan ddau ddeg pum gwaith yn gryfach na charbon deuocsid fel nwy tŷ gwydr.

O edrych ar berfformiadau unigol awdurdodau lleol ar gyfer 2018/19, defnyddiodd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Ynys Môn, Merthyr Tudful Sir Fynwy, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg a Wrecsam, lai na 10% o'u lwfansau, tra defnyddiwyd dros 70% o'u lwfansau gan Ceredigion ag Abertawe.

Roedd Ceredigion yn agos iawn at defnyddio'i lwfans tirlenwi gyfan ar ôl defnyddio 99.97 y cant o' i ddyraniad.

At ei gilydd, mae awdurdodau lleol wedi parhau i wneud cynnydd da wrth ddargyfeirio gwastraff trefol pydradwy rhag cael ei dirlenwi.

Fodd bynnag, bydd bodloni targedau'r dyfodol hyd at 2020 yn arbennig o heriol i'r awdurdodau lleol hynny a ragorodd ar eu lwfansau unigol 2018/19 neu a oedd yn agos atynt.

¹ Cyfeiria'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi ond at wastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol.

² Allan o gyfanswm o 1,542,422 o dunelli o wastraff trefol pydradwy a gasglwyd gan awdurdodau lleol Cymru.

³ Anfonwyd 851,489 o dunelli o wastraff trefol pydradwy i'w dirlenwi yn 2005-06.

Cynnwys

1 Cefndir	4
2 Dilysu – Awdurdod Monitro	5
3 Cydymffurfiaeth gan Awdurdodau Lleol	6
Atodiad 1 – Cyfyngiadau data	8
Atodiad 2 – Cydymffurfiad Awdurdod Lleol o gymharu â thargedau	9
Atodiad 3 – Gwaith cyflwyno adroddiadau gan awdurdodau lleol	13
Atodiad 4 – Map sy'n Crynhoi Lefelau Cydymffurfio Awdurdodau Lleol	16
Gwybodaeth Ansawdd Allweddol	17
Geirfa	18

Ffigurau a Thablau

Ffigur 1. Maint y gwastraff trefol pydradwy a dirlenwyd o gymharu â'r lwfans ar gyfer awdurdodau lleol Cymru 2018/19

Ffigur 2. Cyfran yr awdurdodau lleol a adroddodd yn brydlon yn 2018/19 o gymharu â 2017/18

Tabl 1. Cymharu data WasteDataFlow (WDF) a chofnodion safleoedd tirlenwi sy'n dangos faint o wastraff trefol a dirlenwyd yng Nghymru yn 2018/19 a'r gwahaniaeth rhwng y ddwy gyfres o ddata cyn ac ar ôl y broses ddilysu

Tabl 2. Perfformiad CLT ar gyfer 2018/19

Tabl 3. Canllawiau adrodd statudol y CLT

Tabl 4. Cydymffurfiaeth â therfynau amser ar gyfer adrodd data WasteDataFlow, fesul awdurdod lleol

1 Cefndir

Sefydlwyd Cynllun Lwfansau Tirlenwi Cymru⁴ (CLT) drwy Reoliadau Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004. Pwrpas y cynllun yw sicrhau nad yw gwastraff trefol pydradwy yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Mae lleihau faint o wastraff trefol pydradwy sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan atal nwy methan rhag cael ei gynhyrchu a'i ryddhau i'r aer o safleoedd tirlenwi. Mae methan ddau ddeg pum gwaith yn gryfach na charbon deuocsid fel nwy tŷ gwydr.

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod cyfyngiadau ar faint o wastraff trefol pydradwy gaiff awdurdodau lleol yng Nghymru ei dirlenwi. Cyfoeth Naturiol Cymru yw awdurdod monitro'r cynllun, ac mae'n ddyletswydd arno i adrodd ar berfformiad mewn perthynas â lwfansau blynyddol pob awdurdod lleol a'r cyfanswm ar gyfer Cymru gyfan. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am gysoni'r lwfansau sydd ar gael i bob awdurdod lleol i gyd-fynd â faint o wastraff trefol pydradwy a dirlenwyd ganddynt. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn amcangyfrifo faint o wastraff trefol pydradwy a anfonir i'w dirlenwi, a hynny gan ddefnyddio dull o gydbwysu màs.⁵

Dywed rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi y dylai'r gwastraff pydradwy a gesglir fod yn 61% o gyfanswm y gwastraff trefol a gesglir. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu pydradwyedd gwastraff trefol ac wedi dod i'r casgliad bod y ffigur hwn dal yn briodol.

Ymhen pum mis i ddiwedd y flwyddyn gynllun, rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru bennu faint o wastraff trefol pydradwy a dirlenwyd gan bob awdurdod lleol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu data blynyddol a gysonwyd i Lywodraeth Cymru ar 1 Medi bob blwyddyn. Ymgynghorir â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol ynghylch y data, a chyhoeddir yr adroddiad terfynol ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n gweithredu fel cofrestr y lwfansau tirlenwi.

Hysbysir Llywodraeth Cymru os yw unrhyw awdurdod lleol yn mynd y tu hwnt i'r lwfans a ganiateir iddo, a bydd yr awdurdod lleol yn agored i gael ei gosbi'n ariannol. Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu a chynnal cofrestr cosbau sy'n cynnwys manylion gorchmynion o'r fath.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ddyrannu lwfansau yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Cynllun Lwfansau Tirlenwi: Dyrannu Lwfansau 2009-2020'⁶.

⁴ Cyfeiria'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi ond at wastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol.

⁵ Mae disgrifiad cryno o'r dull o gydbwysu màs yn yr eirfa.

⁶http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/disposal/landfill/allowances/?skip=1&lang=cy

2 Dilysu – Awdurdod Monitro

Mae blwyddyn y Cynllun Lwfansau Tirlenwi yn para o 1 Ebrill hyd 31 Mawrth. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio proses dau gymal, bob chwarter, er mwyn archwilio'r data ar ôl iddo gael ei gyflwyno i WasteDataFlow.⁷ Archwiliad desg o'r holl ddata a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol yw cymal un. Yng nghymal dau, caiff WasteDataFlow ei ddilysu gan ddefnyddio cofnodion safleoedd tirlenwi. Yn 2012, dechreuodd Cyfoeth Naturiol Cymru ar broses chwarterol o ddilysu data safleoedd pen y daith ar gyfer targedau adfer statudol yr awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys archwiliad desg ar sail y swmp o ddeunydd yr adroddwyd ei fod wedi'i adfer bob blwyddyn gynllun.

2.1 Cymharu WasteDataFlow a chofnodion safleoedd tirlenwi

Mae Tabl 1 yn dangos y ffigurau ar gyfer faint o wastraff tirlenwi a ddilyswyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn 2018/19. Mae'r canlyniadau'n dangos canran y gwahaniaethau gwreiddiol a therfynol rhwng y ddwy gyfres o ddata, cyn ac ar ôl dilysu. Yn 2018/19, roedd gwahaniaeth o 1.5% (neu 2,268 o dunelli) rhwng y ffigurau ar ôl eu dilysu. Mae hyn yn mwy na'r gwahaniaeth o 1.4% yn 2017/18. Mae cyfanswm y gwahaniaeth terfynol yn gyfforddus o fewn y targed o 10% a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn welliant mawr o gymharu â'r gwahaniaethau gwreiddiol, cyn dilysu, ym mhob chwarter o'r flwyddyn.

O'r 154,660 o dunelli a ddilyswyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, anfonwyd 137,184 o dunelli i safleoedd tirlenwi yng Nghymru a 3,665 o dunelli i safleoedd tirlenwi yn Lloegr. Tirlenwyd y gweddill ar ôl ynni gan driniaethau gwastraff y tu allan i'r DU. Mae gan y gwastraff hwn bydradwyedd o 0%.

Ar ôl cynnal 88 archwiliad ar gyfer yr awdurdodau lleol drwy gydol blwyddyn y cynllun, mae 7 yn parhau i ddangos anghysondeb o fwy na 10% neu 100 tunnell. Achoswyd y gwahaniaethau rhwng y ddwy gyfres o ddata am sawl rheswm, yn eu plith:

- safle tirlenwi'n cofnodi gan ddefnyddio Rhestr Wastraff (neu Gatalog Gwastraff Ewrop), tra bod awdurdodau lleol yn adrodd yn WasteDataFlow yn ôl y math o ddeunydd. Mae'r systemau adrodd hyn yn creu trafferthion wrth gymharu a hefyd wrth wahaniaethu gwastraff trefol, yn ôl ei ddiffiniad dan reoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi;
- mae'n bosibl bod contractwyr preifat yn cymryd gwastraff trefol nad yw'n fater i'r awdurdod lleol a gwastraff nad yw'n drefol yn yr un cerbyd a ddefnyddir i gasglu gwastraff trefol yr awdurdod lleol. Felly, mae'n anodd cyfrifo'n gywir

⁷ Cofnodir a chyflwynir data drwy gyfrwng dull adrodd ar-lein (WasteDataFlow), ac fe'i rhannir yn gyfres o lefelau, o 0 (cofnodi data) i 40 (Llywodraeth Cymru). Mae awdurdod lleol yn cyflwyno data i Gyfoeth Naturiol Cymru i'w dilysu ar Lefel 30.

swm y gwastraff trefol a gasglwyd gan awdurdod lleol ac a dderbyniwyd ar y safle tirlenwi;

- anawsterau gyda phentyrru a/neu ddostrannu gwastraff trefol o safle tirlenwi a ddefnyddir gan sawl awdurdod lleol.

Tabl 1. Cymharu data WasteDataFlow (WDF) a chofnodion safleoedd tirlenwi sy'n dangos faint o wastraff trefol a dirlenwyd yng Nghymru yn 2018/19 a'r gwahaniaeth rhwng y ddwy gyfres o ddata cyn ac ar ôl y broses ddilysu

Chwarter	2018-19		2018-19		2018-19	
	Gwybodaeth safleoedd – gwastraff soled dinesig a anfonwyd i safleoedd tirlenwi (tunelli)		WasteDataFlow – gwastraff soled dinesig a anfonwyd i safleoedd tirlenwi (tunelli)*		% Gwahaniaeth: rhwng y ddwy set o ddata	
	Gwreiddiol	Terfynol	Gwreiddiol	Terfynol	Gwreiddiol	Terfynol
1	52,290	43,174	44,602	43,040	17.2%	0.3%
2	43,444	41,518	42,649	42,855	1.9%	3.1%
3	34,849	34,041	34,513	34,318	1.0%	0.8%
4	33,206	34,966	34,170	34,446	2.8%	1.5%
Cyfanswm	163,788	153,700	155,934	154,660	6.3%	1.5%

* Dyma gyfanswm y Gwastraff Trefol Solet (GTS) a adroddwyd ei fod wedi'i dirlenwi yn WasteDataFlow, ac sydd wedi'i wirio mewn perthynas â chofnodion safle. Bydd y ffigur hwn ychydig yn is na'r cyfanswm a anfonwyd i safleoedd tirlenwi am nad yw peth gwastraff tirlenwi yn cael ei ddilysu oherwydd dosrennir gwastraff gwrthodedig a gwastraff a wrthodwyd ar ôl sawl proses drin, lle na ellir nodi'r safle tirlenwi neu gyfran yr awdurdod lleol.

3 Cydymffurfiaeth gan Awdurdodau Lleol

Mae Atodiad 1 yn rhoi gwybodaeth gryno bwysig am y cyfyngiad a nodwyd ar y fformiwla bresennol ar gyfer amcangyfrif y gyfran o wastraff bioddiraddiadwy a gaiff ei dirlenwi. Cynghorir bod y wybodaeth y manylir arni yn Atodiad 1 yn cael ei hystyried ar y cyd â'r canlyniadau blynyddol isod.

Ceir y canlyniadau cyfan ar gyfer blwyddyn fonitro 2018/19 yn Atodiad 2 ar y tudalennau canlynol.

Mae'r canlyniadau blynyddol yn dangos bod 22 o'r awdurdodau lleol wedi cyflawni eu rhwymedigaethau lwfans CLT yn ystod 2018/19. Anfonwyd 98,651 o dunelli o wastraff trefol pydradwy o Gymru i gael eu tirlenwi o gymharu â lwfans o 350,000 o dunnelli ar gyfer Cymru gyfan. Golyga hyn fod awdurdodau lleol Cymru gyda'i gilydd wedi tirlenwi 72% (251,349 o dunelli) o wastraff trefol pydradwy yn llai na'r lwfans ar gyfer 2018/19.

Dengys y canlyniadau fod gan 20 o awdurdodau lleol ddigon o ofod wrth gefn ar gyfer bodloni eu rhwymedigaethau yn y dyfodol oherwydd iddynt ddefnyddio llai na 70% o'u lwfansau. Defnyddiodd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg a Wrecsam lai nag 10% o'u lwfans dynodedig. Defnyddiodd y Bont ar Ogwr, Caerdydd, Conwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, a Powys lai na 50% o'u lwfans dynodedig. Defnyddiodd Sir Gaerfyrddin, Gwynedd a Sir Benfro llai na 70% o'u lwfans dynodedig. Defnyddiodd Ceredigion ac Abertawe fwy na 70% o'u lwfans.

Roedd Ceredigion yn agos iawn at defnyddio'i lwfans tirlenwi gyfan ar ôl defnyddio 99.97 y cant o' i ddyraniad.

Mae Atodiad 4 yn dangos adlewyrchiad daearyddol o berfformiad yn erbyn y Cynllun Lwfansau Tirlenwi yng Nghymru.

Mae'r rhesymau dros newidiadau wrth ddefnyddio lwfansau'n amrywio yn ôl blynyddoedd a fesul awdurdod lleol. Yn gyffredinol, gellir priodoli newidiadau i'r canlynol:

- newidiadau i wasanaethau casglu gwastraff;
- newidiadau i arferion rheoli gwastraff a thechnolegau newydd/amgen;
- lefelau cyfranogiad y cyhoedd mewn cynlluniau ailgylchu;
- amgylchiadau na ragwelwyd (e.e. tywydd eithafol, cynllunio wrth gefn)
- Mae'r gyfundrefn treth tirlenwi wedi newid economeg tirlenwi gwastraff. Nid ydy tirlenwi mwyach yn ddewis rhatach i ddulliau eraill o reoli gwastraff.

Atodiad 1 – Cyfyngiadau data

Cyfyngiad

Nodwyd nad yw'r fformiwla ar gyfer cyfrifo cynnwys bioddiraddiadwy gwastraff trefol gweddilliol yn addasu ar gyfer yr holl dunellau pren a gesglir ar wahân o ffynonellau gwastraff gweddilliol cymysg. Y rheswm am hyn yw bod y fformiwla ond yn addasu ar gyfer y tunelli pren hynny yr adroddir eu bod wedi'u hanfon i gyrchfannau ailgylchu ond nid y rhai a anfonir i gyrchfannau llosgi.

Er nad yw'r tunelli o goed a anfonir i'w llosgi'n cael eu dargyfeirio i'w hailgylchu, maent yn cael eu dargyfeirio o ffynonellau gwastraff gweddilliol cymysg sy'n cael eu tirlenwi ar ôl hynny.

Mae pren yn ddeunydd bioddiraddiadwy 100% felly mae'r fformiwla yn goramcangyfrif y gyfran o wastraff bioddiraddiadwy sy'n weddill yn y tunellau terfynol a anfonir i safleoedd tirlenwi drwy beidio â ffactorio'r gwyrriad hwn yn llawn.

Effaith

Mae'r fformiwla wedi'i chymhwyso'n gyson drwy gydol blynyddoedd cynllun y CLT, felly mae'n debygol y bydd swm y gwastraff trefol pydradwy a gaiff ei dirlenwi ar gyfer ychydig o awdurdodau lleol wedi'i oramcangyfrif lle y cofnodwyd bod gwastraff pren a gasglwyd ar wahân wedi losgi mewn rhai blynyddoedd cynllun hanesyddol. Fodd bynnag, mae'r effaith ar ystadegau yn debygol o fod yn fach ar gyfer y blynyddoedd hyn.

Mae'r effaith yn fwy arwyddocaol ar gyfer blwyddyn y cynllun 2018-19 yn dilyn y gwelliannau diweddar yng nghywirdeb y cyrchfannau a adroddwyd gan awdurdodau lleol am wastraff pren.

Gwelliannau

Ni chafodd y fformiwla cydbwysedd torfol ei hadolygu yn ystod blwyddyn 2018-19. Cytunodd Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru na fyddai'n fuddiol defnyddio adnoddau wrth addasu'r cydbwysedd torfol i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau a nodwyd am y rhesymau canlynol:

- Nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru gyfran o bren a ailgylchwyd, a oedd yn dal i gael ei ystyried wrth gyfrifo;
- Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru yn defnyddio cryn dipyn yn is na'r lwfansau a ddyrannwyd iddynt er gwaethaf y cyfyngiad;
- Trefnwyd i'r cynllun lwfansau tirlenwi ddod i ben ym mlwyddyn 2019-20 y cynllun⁸.

⁸ 2019-20 fydd y flwyddyn olaf y dyrennir lwfansau tirlenwi i awdurdodau lleol. Bydd Rheoliadau'r cynllun lwfansau tirlenwi (Cymru) 2004 yn parhau ar y llyfr statud a bydd angen i'r awdurdodau lleol gwrdd â'u darpariaethau adrodd o hyd.

Atodiad 2 – Cydymffurfiad Awdurdod Lleol o gymharu â thargedau


Tabl 2. Perfformiad CLT ar gyfer 2018/19

Awdurdod Lleol	Lwfans Cynllun Lwfansau Tirlenwi (tunnell) 2018/19	Gwastraff dinesig biogdiradda dwy a aeth I safleoedd tirlenwi	% o'r Lwfans Cynllun Lwfansau Tirlenwi a ddefnyddiwyd yn 2018/19
Blaenau Gwent	7,917	599	7.6%
Pen y Bont ar Ogwr	17,073	5,384	31.5%
Caerffili	20,748	406	2.0%
Caerdydd	35,592	3,752	10.5%
Carmarthenshire	18,844	12,822	68.0%
Caerfyrddin	8,665	8,662	99.97%
Conwy	15,717	7,347	46.7%
Sir Ddinbych	9,956	7	0.1%
Sir y Fflint	18,506	141	0.8%
Gwynedd	16,060	8,781	54.7%
Ynys Mon	8,855	108	1.2%
Merthyr Tudful	6,839	439	6.4%
Sir Fynwy	10,211	75	0.7%
Castell-nedd Port Talbot	16,971	4,872	28.7%
Casnewydd	14,292	3,466	24.2%
Sir Benfro	14,519	8,078	55.6%
Powys	17,304	8,128	47.0%
Rhondda Cynon Taf	24,294	1,808	7.4%
Abertawe	27,274	22,612	82.9%
Torfaen	10,463	709	6.8%
Bro Morgannwg	13,084	300	2.3%
Wrecsam	16,816	155	0.9%
CYMRU	350,000	98,651	28.2%
			O dan 90%
			Rhwng 90-100%
			Dros 100%

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadw cofrestr o berfformiadau awdurdodau lleol yn erbyn y Cynllun Lwfansau Tirlenwi ers i'r cynllun gychwyn yn 2004. Gellir dod o hyd iddi yn:

<https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/waste-management/landfill-allowance-scheme/?lang=cy>

Ffigur 1. Maint y gwastraff trefol pydradwy a dirllenwyd o gymharu â'r lwfans ar gyfer awdurdodau lleol Cymru 2018/19



Atodiad 3 – Gwaith cyflwyno adroddiadau gan awdurdodau lleol

Caiff terfyniadau adrodd ar gyfer awdurdodau lleol a gweithredwyr safleoedd tirlenwi (gweler Tabl 4) eu hamlinellu yn rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi. Rhaid i awdurdodau lleol a gweithredwyr safleoedd tirlenwi gyflwyno cofnodion gwastraff trefol i Gyfoeth Naturiol Cymru⁸ o fewn mis i ddiwedd y cyfnod yna.

Tabl 3. Canllawiau adrodd statudol y CLT

Chwarter	Cyfnod	Canllawiau adrodd
1	Data o 1 Ebrill i 30 Mehefin	31 Gorffennaf
2	Data o 1 Gorffennaf i 30 Medi	31 Hydref
3	Data o 1 Hydref i 31 Rhagfyr	31 Ionawr
4	Data o 1 Ionawr i 31 Mawrth	30 Ebrill

Yn 2008-09, cynhyrchodd Cyfoeth Naturiol Cymru ganllawiau'r CLT ar adrodd a hysbysu, sy'n gosod amserlen fanylach ar gyfer awdurdodau lleol a gweithredwyr safleoedd tirlenwi er mwyn bodloni eu rhwymedigaeth dan reoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi i ddarparu data cywir ac amserol.

Awdurdodau Lleol

Mae rheoliadau'r CLT yn ei gwneud hi'n ofynnol ar awdurdodau lleol i gyflwyno eu data gwastraff trefol i Gyfoeth Naturiol Cymru i gael eu dilysu, o fewn mis i ddiwedd y chwarter. Mae Ffigur 2 yn dangos graddfa cydymffurfiaeth adroddiadau data awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystod 2017/18.


Mae lefel yr adroddiadau prydlon yng Nghymru yn 2018/19 wedi gwella nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd 13 awdurdod lleol yn parhau i adrodd yn brydlon ac yn gyson drwy gydol y flwyddyn.

Y prif resymau fod awdurdodau lleol yn adrodd ar ôl y dyddiad terfyn oedd:

- materion technegol;
- materion staffio ac adnoddau mewn awdurdodau lleol;
- oedi cyn i awdurdodau lleol dderbyn data gan gontractwyr;
- yr amser ychwanegol a dreuliyd yn cyrchu data ar gyfer gofynion adrodd eraill.

⁸ Dan reoliadau'r CLT, nodir mai 'Asiantaeth yr Amgylchedd' yw'r awdurdod monitro ond, yng Nghymru, fe'i weinyddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Trwy Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013, cafodd swyddogaethau datganoledig Asiantaeth yr Amgylchedd eu trosglwyddo i Gyfoeth Naturiol Cymru.

Ffigur 2. Cyfran yr awdurdodau lleol a adroddodd yn brydlon yn 2018/19 o gymharu â 2017/18



Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adrodd i Lywodraeth Cymru ar gydymffurfiaeth awdurdodau lleol â'r terfyniadau adrodd. Mae Tabl 5 ar y dudalen nesaf yn rhoi rhagor o wybodaeth ar brydlondeb adrodd awdurdodau lleol yn 2018/19.

Gweithredwyr safleoedd tirlenwi

Mae'n ofynnol ar weithredwyr safleoedd tirlenwi i adrodd faint o wastraff trefol a dderbynnir yn eu safleoedd, a hynny o fewn mis i ddiwedd y chwarter. Adroddwyd ar WasteDataFlow bod 33 safle tirlenwi yng Nghymru a Lloegr wedi'u nodi fel rhai sy'n derbyn gwastraff trefol gan awdurdodau lleol sy'n deillio o Gymru yn 2018/19 – 9 yng Nghymru a 24 yn Lloegr. Hefyd, adroddwyd ar wastraff a dirlenwyd dramor ar ôl iddo gael ei losgi yn WasteDataFlow. Mae cyfanswm y safleoedd tirlenwi a adroddwyd wedi gostwng o 44 i 33 yng Nghymru a Lloegr.

Tabl 4. Cydymffurfiaeth â therfynau amser ar gyfer adrodd data WasteDataFlow, fesul awdurdod lleol


Awdurdod Lleol	Ebr-Meh 2018	Gorff- Medi 2018	Hyd- Rhagfyr 2018	Ion- Maw 2019
Blaenau Gwent	Ar amser	Ar amser	Ar amser	Ar amser
Pen-y-bont ar Ogwr	Ar amser	O fewn 7 diwrnod	Ar amser	Ar amser
Caerffili	Ar amser	Ar amser	Ar amser	Ar amser
Caerdydd	Dros 7 diwrnod	Ar amser	Ar amser	Ar amser
Sir Gaerfyrddin	Dros 7 diwrnod	Ar amser	Ar amser	Ar amser
Ceredigion	Ar amser	Ar amser	Ar amser	Ar amser
Conwy	Ar amser	Ar amser	Ar amser	Ar amser
Sir Ddinbych	O fewn 7 diwrnod	Dros 7 diwrnod	Ar amser	Dros 7 diwrnod
Sir y Fflint	Ar amser	Ar amser	Ar amser	Ar amser
Gwynedd	Ar amser	Ar amser	Ar amser	Ar amser
Ynys Môn	Ar amser	Ar amser	Ar amser	Ar amser
Merthyr Tudful	Ar amser	Ar amser	Ar amser	Ar amser
Sir Fynwy	O fewn 7 diwrnod	Ar amser	Ar amser	Ar amser
Castell-nedd Port Talbot	Ar amser	O fewn 7 diwrnod	Ar amser	O fewn 7 diwrnod
Casnewydd	Ar amser	Ar amser	Ar amser	Ar amser
Sir Benfro	O fewn 7 diwrnod	Ar amser	Ar amser	Ar amser
Powys	O fewn 7 diwrnod	O fewn 7 diwrnod	Ar amser	Ar amser
Rhondda Cynon Taf	Ar amser	Ar amser	Ar amser	Ar amser
Abertawe	Ar amser	Ar amser	Ar amser	Ar amser
Torfaen	Ar amser	Ar amser	Ar amser	Ar amser
Bro Morgannwg	Ar amser	Ar amser	Ar amser	Ar amser
Wrecsam	Ar amser	Dros 7 diwrnod	Ar amser	Ar amser

Noder. Gellir ymestyn terfynau amser yn sgil penwythnosau/gwyliau banc, materion technegol, neu os y cytunwyd gydag awdurdod am resymau esgusodol. Rhoddwyd estyniad o 1 wythnos hefyd i'r holl awdurdodau ar gyfer datganiadau chwarter 3 (Hydref-Rhagfyr) i ganiatáu diweddarau data cwestiynau'r gwasanaeth.

Allwedd

	ar amser
	o fewn 7 diwrnod
	dros 7 diwrnod

Atodiad 4 – Map sy'n Crynhoi Lefelau Cydymffurfio Awdurdodau Lleol



Gwybodaeth Ansawdd Allweddol

1. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru chwe wythnos i ddilysu'r data. Ynglwm wrth ddilysu, mae'r drefn o wirio bod yr holl gwestiynau perthnasol ynglŷn â WasteDataFlow wedi cael eu cwblhau gan yr awdurdodau lleol, a bod unrhyw wahaniaeth o ran cyfrifiadau rhwng y mewnbwn a'r allbwn a gofnodwyd yn cael ei nodi. Hysbysir yr awdurdod lleol perthnasol o unrhyw anghysonderau, a chymerir camau i'w cywiro. Ar ôl dilysu, mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn gofyn i awdurdodau lleol ddarparu tystiolaeth ynglŷn â'u data gwastraff, sy'n broses barhaus drwy gydol y flwyddyn gynllun.
2. Gall fod rhai anghysonderau o ran mesur cyfanswm y gwastraff gan fod y gwastraff yn cael ei bwysu wrth iddo gael ei gasglu, ac yna eto pan gaiff ei anfon i'w drin. Yn ogystal, gall fod pwysau'n cael ei golli drwy brosesau trin amrywiol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilysu cofnodion yr awdurdodau lleol ac yn ei gwneud hi'n ofynnol nad yw'r gwahaniaeth rhwng y swm a gesglir a'r swm a anfonir i gael ei drin yn fwy na 10% mewn unrhyw chwarter, oni bai bod esboniad dilys yn gallu cael ei roi. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi rhoi rhagor o bwyslais ar awdurdodau i ddarparu mwy o dystiolaeth mewn perthynas â'u hystadegau gwastraff ers 2012-13.
3. Mae WasteDataFlow yn parhau i wella a datblygu, a gall hyn gael effaith ar y modd caiff data eu cofnodi. Mae hefyd yn cyflwyno adroddiadau data newydd ar sail anghenion data newydd. Gall rhai newidiadau fod yn gymhleth, gan greu effeithiau wrth adrodd na sylweddolwyd yn wreiddiol. Caiff yr holl newidiadau i'r system eu monitro'n ofalus ar gyfer gwahaniaethau rhwng y data a gofnodir a'r hyn a adroddir. Â bod gwahaniaethau'n digwydd, caiff system WasteDataFlow ei diwygio, a bydd unrhyw ddata a gyhoeddwyd yn flaenorol yn cael eu hadolygu a'u hamlygu yn unol â hynny.
4. Mae cywirdeb y data a adroddir i WasteDataFlow yn llwyr ddibynnol ar fesuriadau, rheolaeth data, ac adroddiadau awdurdodau lleol a gweithredwyr gwastraff. Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilysu yn unol â'r rheoliadau, mae dilysu WasteDataFlow a gwirio mewn perthynas â data gwastraff eraill yn gyfyngedig yn sgil cywirdeb yr adroddiadau hyn.

Geirfa

Pydradwy

Yn gallu cael ei ddadelfennu gan blanhigion ac anifeiliaid.

Gwastraff Trefol Pydradwy (GTP)

Y rhan o wastraff trefol solet sy'n gallu cael ei ddadelfennu gan blanhigion ac anifeiliaid. Mae gwastraff trefol pydradwy yn cynnwys papur a charden, gwastraff bwyd a gardd, a chyfran o fathau eraill o wastraff, megis tecstilau.

Dargyfeirio (rhag cael ei dirlenwi)

Term sy'n cyfeirio at osgoi anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi pan fydd modd ei anfon i gael ei drin yn amgen mewn ffordd sy'n well i'r amgylchedd. Rhoddir amlinelliad o'r hierarchaeth gwastraff yn Erthygl 4 o'r Fframwaith Gwastraff diwygiedig (Cyfarwyddeb 2008/98/EC). Rhydd hyn flaenoriaeth uchel i atal gwastraff yn y lle cyntaf. Pan grëir gwastraff, mae'n rhoi blaenoriaeth i'w baratoi ar gyfer ei aildefnyddio, yna ailgylchu, yna adfer, ac yn olaf un, gwaredu (e.e. tirlenwi).

Nwy tŷ gwydr

Term a roddir i nwyon cyfansawdd yn yr atmosffer sy'n adlewyrchu gwres yn ôl i'r ddaear yn hytrach na'i adael i ddianc i'r gofod. Mae sawl nwy ynghlwm wrth y broses, gan gynnwys carbon deuocsid (CO₂), methan (CH₄), ocsid nitraidd (N₂O), osôn (O₃), anwedd dŵr (H₂O), a rhai o'r clorofflorocarbonau (CFCs).

Lloggi

Trin gwastraff â gwres mewn dull a reolir, naill ai er mwyn lleihau ei faint neu ei natur wenwynig. Gellir adfer ynni o losgi drwy ddefnyddio gwerth cynhesol y gwastraff i gynhyrchu gwres a/neu bŵer.

Cynllun Lwfansau Tirlenwi (CLT)

Pwrpas y Cynllun Lwfansau Tirlenwi yw sicrhau nad yw gwastraff trefol pydradwy yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod terfynau statudol ar faint o wastraff trefol pydradwy y gall awdurdodau lleol yng Nghymru ei anfon i safleoedd tirlenwi. Gall Llywodraeth Cymru roi cosb ariannol i awdurdodau lleol Cymru am fynd y tu hwnt i'w lwfansau ac am fethu â chydymffurfio â gofynion adrodd.

Yn rhinwedd ei swyddogaeth fel awdurdod monitro'r cynllun, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilysu cofnodion gwastraff a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol Cymru ac yn pennu faint o wastraff trefol pydradwy gaiff ei anfon gan bob awdurdod lleol i'w dirlenwi.

Safleoedd tirlenwi

Unrhyw safle lle caiff gwastraff ei osod. Mae safleoedd tirlenwi wedi'u gosod yn aml mewn hen byllau mwyngloddio neu chwareli. Mewn ardaloedd lle nad oes fawr ohonynt

neu le nad oes gwagle parod, weithiau fe godir y tir a gosodir gwastraff uwchben y ddaear, a chaiff y dirwedd ei ailffurfio.

Rhestr Wastraff (Catalog Gwastraff Ewrop)

Mae'n ddull cyffredin o ddsbarthu nodweddion gwastraff at amrywiaeth eang o ddibenion, megis dosbarthu gwastraff peryglus. Mae pennu codau gwastraff yn cael effaith fawr ar gludo gwastraff, ar drwyddedau gosod (sy'n cael eu rhoi fel arfer at ddiben prosesu codau gwastraff penodol), ar benderfyniadau ynghylch potensial gwastraff i gael ei ailgylchu, neu ar ystadegau gwastraff.

Gwastraff trefol awdurdodau lleol

Mae'n cynnwys gwastraff cartrefi a gwastraff nad yw'n ymwneud â chartrefi sy'n cael ei gasglu a'i waredu gan awdurdodau lleol. Mae'n cynnwys casgliadau arferol o gartrefi, casgliadau ailgylchu penodol, casgliadau arbennig ar gyfer eitemau mawr, gwastraff a dderbynnir yn safleoedd amwynder dinesig, a gwastraff a gesglir o ffynonellau nad ydynt yn ymwneud â chartrefi.

Targedau adfer awdurdodau lleol

Gosodwyd targedau adfer awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, a'u bwriad yw hybu rhagor o ailgylchu ac i wireddu manteision ehangach cysylltiedig mewn perthynas â chynaliadwyedd.

Dull o gydbwyso màs

Caiff y fformiwla cydbwyso màs ei weithredu'n chwarterol er mwyn cyfrifo faint o gynnwys pydradwy sydd yng ngwastraff trefol pob awdurdod lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi bod 61% o wastraff trefol awdurdodau lleol Cymru yn bydradwy. Mae'r fformiwla'n defnyddio'r data a adroddwyd i WasteDataFlow i addasu'r ganran hon ar sail pydradwyedd y gwastraff a ddargyfeiriwyd i gael ei ailgylchu, ei aildefnyddio, a'i gompostio. Defnyddir y ganran ddiwygiedig i gyfrifo faint o gynnwys pydradwy sydd mewn gwastraff a dirlenwir.

WasteDataFlow (WDF)

Ers 2004-05, defnyddir system adrodd ar-lein o'r enw WasteDataFlow er mwyn casglu cofnodion gwastraff awdurdodau lleol o ran symiau a mathau o wastraff, a sut y gwaredir â nhw (www.wastedataflow.org). Yng Nghymru, caiff hon ei rheoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru.